

Rheolau Sefydlog Awdurdod S4C
Tachwedd 2016

1 Diffiniadau a dehongliad

Yn y Rheolau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall:

- 1.1 Ystyr "Aelod" yw aelod o'r Awdurdod o bryd i'w gilydd, yn cynnwys y Cadeirydd;
- 1.2 Ystyr "Awdurdod" yw Awdurdod S4C;
- 1.3 Ystyr "Cadeirydd" yw cadeirydd yr Awdurdod o bryd i'w gilydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- 1.4 Ystyr "Cod Ymarfer" yw'r Cod Ymarfer ar gyfer yr Aelodau a fabwysiedir gan yr Awdurdod o bryd i'w gilydd;
- 1.5 Ystyr "Deddfau" yw Deddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebu 2003 (i'r graddau y maent yn ymwneud ag S4C);
- 1.6 Ystyr y "Deyrnas Unedig" yw Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon;
- 1.7 Ystyr "Prif Weithredwr" yw Prif Weithredwr S4C o bryd i'w gilydd;
- 1.8 Ystyr "Rheolau" yw'r Rheolau Sefydlog hyn, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd;
- 1.9 Ystyr "Ysgrifennydd" yw Ysgrifennydd yr Awdurdod o bryd i'w gilydd;
- 1.10 Ystyr "Ysgrifennydd Gwladol" yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon;
- 1.11 Bydd unrhyw gyfeiriad at statud yn cynnwys unrhyw addasiad statudol iddi neu ailddeddfiad ohoni sydd mewn grym o bryd i'w gilydd;
- 1.12 Dehonglir ymadroddion sy'n cyfeirio at ysgrifen neu ddogfen, onid yw'n ymddangos mai fel arall y mae'r bwriad, fel ymadroddion sy'n cynnwys cyfeiriadau at unrhyw fodd o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall ar ffurf weladwy mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau, boed yn electronig neu fel arall ac (heb gyfyngu ar natur gyffredinol y geiriau blaenorol) yn cynnwys negeseuon ebost, argraffu, lithograffeg a ffotograffiaeth;
- 1.13 Bydd gan air neu gymal a ddiffiniwyd yn y Rheolau hyn yr un ystyr os ymddengys wedi ei dreiglo mewn man arall yn y Rheolau;
- 1.14 Oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd unrhyw gyfeiriad at berson yn "arwyddo" neu "lofnodi" unrhyw gytundeb, gweithred, offeryn neu ddogfen o unrhyw fath yn cynnwys arwyddo, selio neu unrhyw ddull arall cywir y gall y person hwnnw ei ddefnyddio i rwymo'i hun i'r fath gytundeb, gweithred, offeryn neu ddogfen.
- 1.15 Bydd geiriau ac ymadroddion sy'n golygu'r unigol yn unig yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb a bydd ymadroddion sy'n dynodi un cenedl yn cynnwys unrhyw genedl arall; a
- 1.16 Mae'r Rheolau hyn yn ychwanegol i'r Deddfau a'r Cod Ymarfer ac ni fwriedir i'r Rheolau gymryd eu lle na chyfyngu neu amharu arnynt.

2. **Statws yr Awdurdod a dirprwyo pwerau'r Awdurdod**

- 2.1 Yn unol â darpariaethau Pennod VI o Ran I Deddf Darlledu 1990, mae'r Awdurdod yn gorff ymgorfforedig. Pan fydd yr Aelodau yn gweithredu yn rhinwedd y swydd honno, byddant yn gweithredu ar ran, ac yn enw, yr Awdurdod.
- 2.2 Caiff yr Awdurdod ddirprwyo unrhyw un o'i bwerau (gyda phwerau i is-ddirprwyo) i unrhyw bwyllgor sy'n cynnwys pa bynnag berson neu bersonau (p'un a ydynt yn Aelodau neu beidio) fel y gwêl yn dda neu i unrhyw un neu fwy o'r Aelodau neu aelodau o staff yr Awdurdod. Bydd unrhyw ddirprwyo o'r fath o dan gyfarwyddyd cyffredinol yr Awdurdod, a gall fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r Awdurdod am eu gosod, a gellir ei ddiwysu neu ei newid. Yn ddarostyngedig i unrhyw amodau o'r fath, llywodraethir trafodion pwyllgor gyda dau neu ragor o aelodau gan y Rheolau sy'n rheoli trafodion yr Awdurdod i'r graddau y gallant fod yn gymwys.
- 2.3 Heb gyfyngu ar ddarpariaethau cyffredinol Rheol 2.2, ac i'r graddau y caniateir hynny gan y Deddfau, bydd yr Awdurdod yn dirprwyo cyfrifoldeb i'r Prif Weithredwr yn ddarostyngedig i faterion sydd wedi eu neilltuo gan yr Awdurdod, ar yr amodau, ac o fewn y canllawiau, a fydd wedi eu nodi mewn Atodiad sydd i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod o bryd i'w gilydd. Caiff yr Awdurdod ehangu, ddiwysu, ddiwygio ac/neu ddiweddarau'r Atodiad o bryd i'w gilydd yn ôl ei ddoethineb.
- 2.4 Gall yr Awdurdod benodi, neu drefnu cael cymorth, pwyllgorau ymgynghorol i roi cyngor iddo ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Awdurdod yn ôl penderfyniad yr Awdurdod.

3. **Treuliau Aelodau**

Bydd hawl gan Aelodau i dderbyn ad-daliad o dreuliau a ddaw i'w rhan mewn cysylltiad â'u swydd neu â chyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau yn unol â pholisi treuliau'r Awdurdod o bryd i'w gilydd.

4. **Trafodion yr Awdurdod**

- 4.1 Bydd yr Awdurdod yn cyfarfod unwaith bob mis, ac eithrio mis Awst, ac ar unrhyw adeg arall pan fydd galw. Bydd cyfarfodydd yn cael eu galw gan:
- (1) yr Ysgrifennydd; neu
 - (2) yr Ysgrifennydd ar gais ac ar ran y Cadeirydd; neu
 - (3) yr Ysgrifennydd ar gais ac ar ran unrhyw ddau Aelod.
- 4.2 Rhoddir hysbysiad o bob cyfarfod o'r Awdurdod i bob Aelod, ond os yw Aelod y tu allan i'r Deyrnas Unedig am y tro, gall roi cyfeiriad o fewn i'r Deyrnas Unedig i'r Ysgrifennydd at ddibenion anfon hysbysiadau, ond ni fydd hi'n ofynnol i anfon hysbysiad i Aelod y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
- 4.3 Yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, bydd yr Ysgrifennydd fel arfer yn bresennol (oni phennir fel arall gan yr Awdurdod) a gall yr Awdurdod, ar gais yr Ysgrifennydd, ganiatáu i aelodau o staff S4C ac unrhyw berson arall fod yn bresennol am ran neu'r cyfan o unrhyw gyfarfod, ond ni fydd gan unrhyw berson heblaw Aelodau yr hawl i bleidleisio.

- 4.4 Cadeirir pob cyfarfod o'r Awdurdod gan y Cadeirydd. Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol mewn unrhyw un o gyfarfodydd yr Awdurdod neu os nad oes Cadeirydd am y tro, caiff y cyfarfod ei gadeirio gan unrhyw Aelod a benodir gan y Cadeirydd yn y cyfarfod neu os nad yw'r Cadeirydd wedi penodi eilydd yna penodir y Cadeirydd gan ddau Aelod.
- 4.5 Gall yr Aelodau o'r Awdurdod benodi aelod o'u plith yn Is-Gadeirydd neu Brif Aelod Anweithredol.
- 4.6 Bydd yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â Pholisi Iaith S4C.
- 4.7 Rhaid i Aelod sydd â diddordeb uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn unrhyw fater a godir i'w drafod mewn cyfarfod o'r Awdurdod ddatgelu natur ei ddiddordeb i'r cyfarfod. I'r diben hwn, mae diddordeb Aelod yn cynnwys unrhyw ddiddordeb a nodir yn Rheolau 5.1 a 5.2. Lle bo datgeliad o'r fath yn cael ei wneud:
- (a) caiff y datgeliad ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod; a
 - (b) (yn ddarostyngedig i Reol 4.8) ni chaiff yr Aelod hwnnw gymryd rhan na bod yn bresennol mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad gan yr Awdurdod, neu unrhyw bwyllgor ohono, ynghylch y mater hwnnw.
- 4.8 Ni fydd Rheol 4.7(b) yn gymwys i unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod lle bod pob Aelod arall sy'n bresennol yn penderfynu y dylid diystyru diddordeb yr Aelod hwnnw at ddibenion y Rheol honno.
- 4.9 At ddibenion Rheol 4.7, bydd hysbysiad cyffredinol a roddir mewn cyfarfod o'r Awdurdod i'r perwyl bod Aelod yn aelod o gwmni neu ffyrn benodol ac y dylid ei ystyried yn berson sydd â diddordeb mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â'r cwmni hwnnw neu'r ffyrn honno yn cael ei drin fel datgeliad digonol o'i ddiddordeb mewn unrhyw fater o'r fath.
- 4.10 Ni fydd angen i Aelod fynychu cyfarfod o'r Awdurdod yn bersonol er mwyn iddo wneud datgeliad sy'n ofynnol o dan Reol 4.7 os yw'n cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y datgeliad yn cael ei wneud trwy hysbysiad a gymerir i ystyriaeth ac sy'n cael ei ddarllen yn y cyfarfod.
- 4.11 Yn Rheolau 4.7 i 4.10, mae cyfeiriadau at gyfarfodydd o'r Awdurdod yn cynnwys cyfeiriadau at gyfarfod o'i phwyllgorau.
- 4.12 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Deddfau, os caiff mater sy'n codi mewn cyfarfod ei roi i bleidlais, penderfynir ar y mater hwnnw drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwriwyd gan yr Aelodau hynny sy'n bresennol ac sy'n gymwys i bleidleisio. Bydd gan bob Aelod un bleidlais, oni bai ei fod wedi ei wahardd rhag pleidleisio o dan Reolau 4.7 i 4.11. Yn achos nifer gyfartal o bleidleisiau, bydd gan gadeirydd y cyfarfod hawl i gael pleidlais fwrw yn ychwanegol at unrhyw bleidlais arall a all fod gan y cadeirydd.
- 4.13 Yn ddarostyngedig i'r Rheolau, y Deddfau a'r Cod Ymarfer, caiff yr Aelodau gyfarfod fel Awdurdod ar gyfer ymdrin â busnes a gohirio eu cyfarfodydd a rheoli eu cyfarfodydd fel arall fel y gwelant yn dda. Y cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod fydd tri Aelod¹. Os na fydd cworwm yn bresennol cyn pen hanner awr ar ôl yr amser a bennwyd ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod, neu os yw'r cadeirydd yn ystod unrhyw gyfarfod yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, caiff y cyfarfod ei ohirio. Ystyrir y busnes sy'n weddill ar adeg a dyddiad a bennir gan y cadeirydd. Os nad yw'n gosod

¹ Nodyn Tachwedd 2016: Bydd cworwm yr Awdurdod yn parhau i fod yn dri aelod hyd nes y bydd Aelodau newydd wedi eu penodi ac wedi ymgymryd â'u dyletswyddau. Bydd yr Awdurdod yn adolygu maint cworwm yr Awdurdod yn dilyn penodi Aelodau ychwanegol i'r Awdurdod.

dyddiad, ystyrir y busnes sy'n weddill yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod.

- 4.14 Caiff yr Aelodau sy'n parhau, neu'r unig Aelod sy'n parhau i fod yn Aelod, weithredu er gwaethaf unrhyw leoedd gwag ar yr Awdurdod, hyd yn oed os bydd nifer yr Aelodau yn llai na'r nifer a bennwyd fel y cworwm.
- 4.15 Gall pob un neu unrhyw un o'r Aelodau gymryd rhan mewn cyfarfod o'r Awdurdod drwy gyfrwng ffôn neu fideo cynadleddi neu unrhyw offer cyfathrebu arall sy'n caniatáu i bob person sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod glywed ei gilydd. Bernir bod person sy'n cymryd rhan yn y modd hwn yn bresennol yn bersonol yn y cyfarfod a bydd ganddo hawl i bleidleisio a chael ei gyfrif mewn cworwm o ganlyniad. Bernir bod cyfarfod o'r fath yn digwydd lle fydd y grŵp mwyaf o'r sawl sy'n cymryd rhan wedi'i gynnwys, neu, os nad oes unrhyw grŵp o'r fath, yn y fan y bydd cadeirydd y cyfarfod ar y pryd.
- 4.16 Bydd pob gweithred a wneir gan gyfarfod o'r Awdurdod, neu gan berson sy'n gweithredu fel Aelod, er gwaethaf y ffaith y darganfyddir wedyn fod diffyg ym mhenodiad unrhyw Aelod neu fod unrhyw un ohonynt wedi'i ddatgymhwyso rhag dal swydd, neu ei fod wedi gadael swydd, neu nad oedd ganddo hawl i bleidleisio, yr un mor ddilys â phetai pob person o'r fath wedi'i benodi'n briodol a'i fod yn gymwys a'i fod wedi parhau i fod yn Aelod a'i fod â hawl i bleidleisio.
- 4.17 Bydd unrhyw benderfyniad a basiwyd neu gamau a gyflawnwyd mewn unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod yn ddilys hyd yn oed os trwy ddamwain y methwyd â rhoi rhybudd o'r cyfarfod i unrhyw berson ddylai ei dderbyn, neu os nad yw'n derbyn y rhybudd.
- 4.18 Bydd penderfyniad a lofnodwyd neu a gymeradwywyd mewn ffurf ysgrifenedig gan fwyafrif o'r Aelodau hynny sydd â hawl i gael hysbysiad ynghylch cyfarfod o'r Awdurdod a hawl i bleidleisio ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw yr un mor ddilys ac effeithiol â phetai wedi'i basio mewn cyfarfod o'r Awdurdod. Gall gynnwys nifer o ddogfennau a phob un ohonynt wedi'i llofnodi neu ei chymeradwyo gan un neu ragor o bersonau.
- 4.19 Heb amharu ar Reol 2, ni chaiff unrhyw Aelod unigol benodi dirprwy i fynychu cyfarfodydd yr Awdurdod neu weithredu dyletswyddau eraill fel Aelod yn ei le.

5. **Buddiannau Croes**

- 5.1 Heb gyfyngu ar Reolau 4.7 i 4.11, dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw ddiddordebau personol neu fusnes sy'n gwrthdaro â'u cyfrifoldebau fel Aelodau o'r Awdurdod. Dylid datgelu'r rhain yn fuan iawn a dylid cymryd camau priodol i'w datrys.
- 5.2 Cedwir cofrestr o fuddiannau Aelodau. Bydd y rhestr hon yn rhestru diddordebau ariannol uniongyrchol y gallai aelodau'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y gallant ddylanwadu barn. Bydd hefyd yn cynnwys diddordebau anariannol Aelodau sy'n agos gysylltiedig â gweithgareddau'r Awdurdod, a diddordebau aelodau agos o'u teuluoedd neu bersonau sy'n byw yn yr un tŷ ag Aelodau. Mae diddordebau ariannol anuniongyrchol yn deillio o gysylltiadau â chyrrff a chanddynt ddiddordeb ariannol uniongyrchol neu o fod yn bartner busnes, neu o gael eu cyflogi gan, berson a chanddo ddiddordeb o'r fath. Mae diddordebau anariannol yn cynnwys rhai sy'n deillio o aelodaeth clybiau a chyrrff eraill. Mae aelodau agos o'r teulu yn cynnwys partneriaid personol, rhieni, plant (oedolion a phlant ifanc), brodyr, chwirydd a phartneriaid personol unrhyw un o'r rhain.
- 5.3 Bydd cofrestr diddordebau'r Aelodau yn agored i'r cyhoedd yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd a Chaernarfon, a hysbysir trefniadau ar gyfer ei weld ar safle we S4C ac yn adroddiad blynyddol S4C. Mae cyfrifoldeb ar bob Aelod i ddiweddarau eu datganiadau wrth i newidiadau ddigwydd a gofynnir iddynt gadarnhau neu newid eu

datganiadau yn ffurfiol bob blwyddyn. Cedwir y gofrestr gyhoeddedig yn gyfredol yn yr un modd.

- 5.4 Gan ddilyn arferion cyfrifyddol cydnabyddedig, rhaid i Aelodau drefnu eu bod yn cydymffurfio â'r angen o dan Safon Adrodd Ariannol 8 (neu ei olynydd o bryd i'w gilydd) y dylai trafodion perthnasol gyda phartïon cysylltiol gael eu datgelu mewn datganiadau ariannol. Mae partïon cysylltiol yn cynnwys aelodau o'r teulu neu bobl sy'n byw yn yr un tŷ â'r Aelod neu y gellid disgwyl iddynt ddylanwadu, neu gael eu dylanwadu gan, Aelodau neu reolwyr allweddol.

6. **Gwerthuso Aelodau**

- 6.1 Unwaith bob blwyddyn, bydd y Cadeirydd yn cyfarfod gyda phob Aelod arall yn unigol er mwyn gwerthuso perfformiad y person hwnnw fel Aelod.
- 6.2 Unwaith bob blwyddyn, bydd cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth neu (os taw'r Cadeirydd yw cadeirydd un o'r pwyllgorau hynny) cadeirydd y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn cyfarfod gyda'r Cadeirydd er mwyn gwerthuso ei berfformiad fel Cadeirydd.

7. **Ysgrifennydd**

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Deddfau, penodir Ysgrifennydd yr Awdurdod ac unrhyw ddirprwy gan yr Awdurdod am y cyfnod ac ar y telerau y gwêl yr Awdurdod yn dda; a gall unrhyw Ysgrifennydd a benodir felly gael ei d(d)iswyddo (yn ddibynnol ar hawliau cyflogaeth) gan yr Awdurdod.

8. **Cofnodion**

Bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu bod cofnodion yn cael eu cadw o'r holl drafodion mewn cyfarfodydd o'r Awdurdod, gan gynnwys enwau'r sawl sy'n bresennol ymhob cyfarfod o'r fath. Bydd y cofnodion yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod nesaf yr Awdurdod a bydd y Cadeirydd yn eu harwyddo ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

9. **Y Sêl**

Dim ond drwy awdurdod yr Awdurdod neu bwyllgor o'r Awdurdod a awdurdodwyd gan yr Awdurdod y defnyddir y sêl. Caiff yr Awdurdod neu'r cyfryw bwyllgor benderfynu pwy fydd yn llofnodi unrhyw offeryn y bydd y sêl wedi'i osod arno. Heb amharu ar y darpariaethau blaenorol, mae'r Awdurdod, drwy'r Rheol hon, yn rhoi awdurdod i bob un o'r Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a Phrif Weithredwr S4C o bryd i'w gilydd, yn gweithredu'n unigol, i lofnodi unrhyw offeryn y bydd y sêl wedi'i osod arno, oni phenderfynir fel arall yn benodol.

10. **Dogfennau ynglŷn â'r Awdurdod**

Ac eithrio pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith, gall yr Awdurdod yn ôl ei ddoethineb dderbyn, awdurdodi neu gymeradwyo copi ffacs, copi electronig neu gopi arall a wnaed drwy beiriant o unrhyw gais, offeryn, awdurdod, cytundeb, hysbysiad neu ddogfen arall a roddwyd neu a gyflwynwyd i'r Awdurdod neu'r Aelodau. Gall yr Awdurdod yn ôl ei ddoethineb dderbyn, awdurdodi neu gymeradwyo neges ebost neu neges destun SMS sydd yn atgynhyrchu cynnwys unrhyw gais, offeryn, awdurdod, cytundeb, hysbysiad neu ddogfen o'r fath.

11. **Indemniad**

Caiff yr Aelodau a'r Ysgrifennydd o bryd i'w gilydd sy'n gweithredu mewn perthynas ag unrhyw un o faterion yr Awdurdod a'u hysgutwyr neu eu gweinyddwyr priodol eu hindemnio a'u cadw'n ddigolled o asedau'r Awdurdod, i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, rhag ac yn erbyn unrhyw rwymedigaeth sifil personol a ddaw i'w rhan wrth gyflawni neu honni cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod, cyn belled â'u bod wedi gweithredu'n onest, yn rhesymol a didwyll a heb esgeulustod. Ymhellach, caiff yr Awdurdod brynu a chynnal yswiriant ar draul yr Awdurdod er budd unrhyw Aelod neu'r Ysgrifennydd i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith.

12. **Newid ac Adolygu Rheolau**

12.1 Gall yr Awdurdod newid y Rheolau hyn drwy benderfyniad yr Awdurdod o bryd i'w gilydd.

12.2 Mi fydd yr Awdurdod yn adolygu'r Rheolau hyn o leiaf unwaith bob 5 mlynedd.

13. **Iaith y Rheolau Sefydlog**

Os oes anghysondeb rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o ddogfennau'r Awdurdod y ddogfen Gymraeg fydd yn goresgyn.

Atodiad **Materion Wedi Eu Neilltuo i Awdurdod S4C**

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r materion strategol, y swyddogaethau a'r penderfyniadau y mae Awdurdod S4C yn neilltuo iddo'i hun a'i Bwyllgorau.

Bydd y ddogfen hon yn cael ei adolygu'n achlysurol gan yr Awdurdod.

Yn gyfreithiol, Awdurdod S4C yw "S4C". Yr Awdurdod yw'r unig endid cyfreithiol sy'n bodoli. Mae'n gorff statudol a sefydlwyd gan ddeddf gwlad ac mae pob cyfeiriad cyfreithiol at "S4C" yn gyfeiriad at Awdurdod S4C.

Priod waith Awdurdod S4C yw darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg ar deledu ac ar lwyfannau digidol, yn bennaf i'r gynulleidfa yng Nghymru, ond hefyd ar gyfer y gynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaeth Cymraeg S4C. Er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel mae'n bwysig bod yr Awdurdod a'i Aelodau yn gwrando'n gyson ar farn y gynulleidfa ac yn sicrhau bod S4C yn darparu gwasanaeth teilwng ac addas ar eu cyfer.

O ran egwyddor sylfaenol, ac yn amodol ar y darpariaethau statudol perthnasol a'r Rheolau Sefydlog, mae'r Awdurdod yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus S4C, gan gynnwys materion golygyddol a chomisiynu, a rheoli o ddydd i ddydd i Brif Weithredwr S4C. Mae Bwrdd Strategol a Rheoli S4C, yn atebol i Awdurdod S4C trwy'r Prif Weithredwr. Mae'r arfer hwn wedi bodoli ers 1982, ac mae'n parhau i gynnal a sicrhau annibyniaeth yr Awdurdod oddi wrth benderfyniadau ynglŷn â chynnwys gwasanaethau S4C.

Er hyn, mae rhai materion sydd un ai yn swyddogaethau sydd angen cael eu cyflawni'n uniongyrchol gan yr Awdurdod, neu yn rhai lle mae angen sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod. Nodir y rhain yn y rhestr isod o faterion sydd wedi eu neilltuo.

Mewn maes lle mae newid yn nodwedd cyson, ac mewn corff sy'n derbyn arian cyhoeddus ond sy'n annibynnol o ddylanwad neu ymyrraeth wleidyddol, ac sydd hefyd yn berchen ar is-gwmnïau masnachol, gellir disgwyl bod materion yn codi lle nad yw'n amlwg a ydynt yn dod o fewn diffiniad 'materion wedi eu neilltuo' ai peidio. Pan fydd materion fel hyn yn codi, rhaid i swyddogion ystyried yn ofalus faterion sydd angen eu cyflwyno i sylw'r Awdurdod cyn eu gweithredu. Yn hyn o beth mae cyngor Ysgrifennydd yr Awdurdod, a'i bresenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd Strategol a Rheoli S4C yn allweddol. Felly hefyd y berthynas i'r trafodaethau rheolaidd rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mae gan y Cadeirydd swyddogaeth bwysig o gynghori'r Prif Weithredwr ynglŷn â pha faterion sydd angen sylw ffurfiol yr Awdurdod, ynghyd â'r amser gorau i wneud hynny a natur y wybodaeth sy'n briodol i'w chyflwyno i'r Awdurdod. Dylai'r Cadeirydd fod mewn cysylltiad digon agos â'i aelodau i fedru rhoi arweiniad i'r Prif Weithredwr ynglŷn â'r mathau o gwestiynau y byddai'r Awdurdod yn dymuno eu gofyn pe bai mater yn cael ei ddwyn i'w sylw. Drwy weithredu yn y dull hwn, bydd y Prif Weithredwr yn teimlo rhyddid i fynd at y Cadeirydd i gael arweiniad ynglŷn â materion a all fod yn ddadleuol tra bydd gan aelodau eraill yr Awdurdod yr hyder y bydd y Cadeirydd bob amser yn ymwybodol mai gan yr Awdurdod cyfan y mae'r hawl i wneud penderfyniadau ar faterion pellgyrhaeddol a dadleuol.

Mae'r materion isod yn ddarostyngedig i'r darpariaethau statudol perthnasol, Rheolau Sefydlog yr Awdurdod a chylchoedd gorchwyl Pwyllgorau'r Awdurdod.

Mae rolau a chyfrifoldebau cyffredinol yr Awdurdod yn cynnwys

- Darparu gwasanaethau S4C a sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau hyn gyda'r rheoliadau perthnasol;
- Gweithredu er lles gwasanaeth a sefydliad S4C, gan gynnwys cynnal perthynas a deialog gyda'r gynulleidfa,
- Sicrhau trefniadau ac amodau cyfansoddiad, annibyniaeth ac ariannu priodol hir dymor;
- Gosod a chynnal gwerthoedd S4C;
- Cydymffurfio gyda gofynion deddfau a rheoliadau perthnasol;
- Cydymffurfio gyda gofynion y Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC;
- Cynnal enw da gwasanaeth a sefydliad S4C;
- Goruchwyllo effeithiolrwydd a chywirdeb ariannol S4C;
- Cefnogi rheolwyr S4C i wella ansawdd ac ehangu defnydd o gynnwys S4C;
- Defnyddio ei bwerau craffu i sicrhau safonau uchel a chyson o fewn gweithrediad S4C.

Materion sydd wedi eu neilltuo

1. Strategaeth S4C

- Cyfrannu at a chymeradwyo gweledigaeth, strategaeth a blaenoriaethau S4C a gweledigaeth, strategaeth a blaenoriaethau'r cynllun busnes (5 mlynedd) cysylltiedig;
- Cymeradwyo cynllun cynnwys blynyddol a hir dymor;
- Cymeradwyo cynllun corfforaethol blynyddol sy'n cysylltu adnoddau a rhaglenni a chynnwys gyda materion eraill.
- Datblygu a chymeradwyo Blaenoriaethau Strategol S4C.

2. Materion Ariannol

- Sicrhau trefniadau ac ariannu digonol hir dymor ar gyfer S4C;
- Cymeradwyo cynlluniau ariannol hir dymor S4C;
- Cymeradwyo cyllideb flynyddol S4C gan gynnwys dyrannu adnoddau ariannol i brif weithgareddau S4C;
- Cymeradwyo pob newid sylweddol o ddyraniadau cyllideb flynyddol S4C lle mae'r Awdurdod o'r farn y gall maint neu arwyddocâd y newid o fewn y gyllideb berthnasol fod yn debygol o gael effaith ar flaenoriaethau neu strategaeth S4C, allu S4C i gyflawni ei dyletswyddau neu all effeithio ar enw da S4C.
- Cymeradwyo Adroddiad a Datganiad Ariannol Blynyddol S4C a chyhoeddusrwydd cysylltiedig;
- Cymhwyso refeniwiau a gynhyrchir gan S4C Masnachol;
- Cymhwyso cronfeydd wrth gefn.
- Yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac yn unol â chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol, penodi a diswyddo archwilwyr mewnol ac allanol S4C a chymeradwyo'u cydnabyddiaeth;
- Cymeradwyo unrhyw newid perthnasol i drefniadau pensiwn S4C, ac unrhyw newid i'r ymddiriedolwyr pensiwn neu gynghorwyr pensiwn.

3. Materion Masnachol

- Sicrhau pwerau cyfreithiol addas a digonol ar gyfer cyflawni gweithgareddau masnachol S4C;
- Cymeradwyo amcanion strategaeth hir dymor gweithgareddau masnachol S4C;
- Monitro'n gyson berfformiad gweithgareddau masnachol S4C;
- Sicrhau bod gweithgareddau masnachol S4C yn cydymffurfio gyda dyletswyddau statudol S4C, gan gynnwys gweithredu o fewn pwerau cyfreithiol Awdurdod S4C;
- Cymeradwyo penodiadau a diswyddiadau cyfarwyddwyr bwrdd grŵp cwmnïau masnachol S4C;
- Cymeradwyo strwythur gweithgareddau ac is-gwmnïau masnachol S4C.

4. Stiwardiaeth

- Cynnal asesiad blynyddol o brosesau rheoli risg a rheoli ariannol S4C;

- Sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac adolygu cofrestr risg S4C o leiaf unwaith y flwyddyn;
- Mabwysiadu a gweithredu (neu sefydlu ac adolygu os nad oes cod perthnasol yn bodoli) Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet, i'w hun a'i Aelodau unigol.

5. Rheoli Perfformiad

- Sefydlu a monitor strwythur mesur ac asesu perfformiad gwasanaethau S4C, gan gynnwys lle'n briodol gosod targedau ar gyfer perfformiad y gwasanaethau;
- Sefydlu strwythur priodol o is-bwyllgorau ar gyfer craffu ar berfformiad S4C a'i gweithredwyr a'i asesu;
- Derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arno mewn dull amserol er mwyn asesu ansawdd a chyrhaeddiad ei chynnyrch darlledu ac effeithiolrwydd ei rheolwyr.

6. Llywodraethiant Corfforaethol

- Sicrhau fod strwythur a phrosesau llywodraethiant corfforaethol priodol yn cael eu cymeradwyo a'u gweithredu ar gyfer holl weithgareddau Awdurdod S4C;
- Adolygu prosesau a threfniadau llywodraethiant corfforaethol S4C yn flynyddol;
- Cynnal adolygiad blynyddol trwyadl o'i berfformiad ei hun, a pherfformiad ei bwyllgorau a'i uwch reolwyr;
- Adolygu priodoldeb ei ddirprwyaethau a'i rôl ei hun bob blwyddyn.

7. Barn y gynulleidfa ac Ymchwil

- Sicrhau cyfleoedd priodol er mwyn i'r gynulleidfa gyflwyno'u barn am wasanaethau S4C i'r Awdurdod, gan gynnwys cynnal sesiynau cyhoeddus mewn gwahanol ardaloedd o Gymru bob blwyddyn;
- Cydymffurfio gyda'r dyletswyddau statudol yn ymwneud â chanfod barn cynulleidfa S4C, gan gynnwys canfod barn y gynulleidfa am ragenni S4C, eu heffeithiau ar y gynulleidfa a'r math o raglenni y byddent yn dymuno'u gweld ar wasanaethau S4C;
- Comisiynu ymchwil yn unol â'r ddyletswydd statudol, neu sicrhau bod y fath ymchwil yn cael ei gomisiynu, a'i fod ar gael iddo;
- Asesu goblygiadau canfyddiadau ymchwil i'w bolisïau a'i strategaeth cynnwys.

8. Cydweithio gyda sefydliadau a mudiadau eraill

- Sicrhau fod S4C yn gweithredu fel sefydliad cenedlaethol sy'n cydweithio ac yn partneru gyda sefydliadau a mudiadau cenedlaethol a lleol er mwyn creu cyfleoedd creadigol newydd ar gyfer gwasanaeth S4C ac er mwyn cynyddu'r budd ieithyddol, diwylliannol ac economaidd a ddaw o weithgareddau S4C.

9. Polisïau

- Cymeradwyo a monitro polisïau allweddol S4C, gan gynnwys:
 - Canllawiau Iaith Cynnwys S4C;
 - Cynllun a Safonau Iaith yn ymwneud â gweithrediaeth S4C;
 - Polisïau'n ymwneud â chyflogaeth a gweithlu S4C;
 - Iechyd a Diogelwch;
 - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
 - Chwythu'r Chwiban / Datgelu;
 - Chynaliadwyedd Amgylcheddol; a
 - Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

10. Penodiadau a Thâl

- Penodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd, a rheoli eu perfformiad;
 - Pennu cyflog ac amodau cyflogaeth y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd.
- Cymeradwyo egwyddorion polisi/au cyflogaeth fewnol S4C gan gynnwys unrhyw negydiad cyflog blynyddol cyffredinol.

11. Ymdrin â Chwynion a Chydymffurfiad

- Sicrhau fod proses gwynion berthnasol yn cael ei gweithredu gan S4C a Phwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod;
- Adolygu'n rheolaidd i ba raddau mae rheolwyr S4C yn comisiynu ac yn cyflenwi rhaglenni sy'n cydymffurfio â safonau Ofcom a chylch gwaith yr Awdurdod.

12. Trefniadau Dirprwyo

- Cymeradwyo cylchoedd gorchwyl ac aelodaeth holl bwyllgorau'r Awdurdod;
- Derbyn adroddiadau rheolaidd gan bwyllgorau'r Awdurdod am eu gweithgareddau; Sicrhau perthynas adeiladol, a rhaniad cyfrifoldebau addas rhwng yr Awdurdod a gweithrediaeth S4C a Chadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr. Ystyried cylch gorchwyl y Bwrdd Strategol a Rheoli.

13. Materion Eraill

- Erllyn, amddiffyn neu setlo ymgyfreitha berthnasol sylweddol ar ran S4C;
- Ymateb i unrhyw ymchwiliad i weithgareddau S4C gan unrhyw awdurdod rheoleiddio cymwys;
- Delio gyda materion yr ystyrir eu bod yn gynhennus neu'n ddadleuol; ac
- Unrhyw fater arall a allai niweidio hygrdedd neu enw da S4C.

Cymeradwywyd gan Awdurdod S4C ar 13eg Tachwedd, 2014
Diwygiwyd Tachwedd, 2016